# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
08 Mehefin 2020

## SL(5)551 – Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 (‘Gorchymyn 2018’). Mae Gorchymyn 2018 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â’r gofyniad i gymeradwyo systemau draenio cynaliadwy o dan Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (“Deddf 2010”), a cheisiadau i fabwysiadu systemau draenio cynaliadwy o dan yr Atodlen honno.

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn mewnosod darpariaeth ddehongli yn Erthygl 2 o Orchymyn 2018 (dehongli) sy'n nodi'n glir nad yw datblygiadau a ganiateir, sef datblygiadau y rhoddir caniatâd cynllunio iddynt yn rhinwedd gorchmynion datblygu a gorchmynion datblygu lleol yn unol ag adran 58(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w hystyried fel gwaith sydd wedi cael caniatâd cynllunio at ddibenion yr eithriadau yn Erthyglau 3 i 6 o Orchymyn 2018. Gwneir y diwygiad hwn i gywiro hepgoriad anfwriadol yng Ngorchymyn 2018.

Effaith hyn yw y bydd angen i'r corff cymeradwyo gymeradwyo gwaith adeiladu sydd â goblygiadau draenio, sydd hefyd yn ddatblygiad a ganiateir ac sy'n cwmpasu darn o dir o 100 metr sgwâr neu fwy, yn unol â darpariaethau Gorchymyn 2018.

Mewn ymateb i bandemig Covid-19, mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Erthygl 4 o Orchymyn 2018 (eithriadau i'r gofyniad am gymeradwyaeth: nid oes angen caniatâd cynllunio). Mae'n mewnosod paragraff (3) newydd sy'n darparu nad oes angen cymeradwyaeth o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010 ar gyfer datblygiadau a ganiateir mewn argyfwng o dan Ran 3A, Rhan 12A a Rhan 37 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

**Fe’u gwnaed ar:** 18 Mai 2020

**Fe’u gosodwyd ar:** 19 Mai 2020

**Yn dod i rym ar:** 09 Mehefin 2020